**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**RHONDDA CYNON TAF**

**BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Iau, 24 Tachwedd 2022 am 10.00 am.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol**:-

Y Cynghorydd G Caple (Cadeirydd)

Y Cynghorydd R Lewis  Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S Rees  Councillor P Evans

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion
Mr M Free, Rheolwr Gwasanaeth
Ms M Davies - TGP
C Emery, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaeth Cymunedau Diogel a Thai Cymuned

**14 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon, S. Evans a S. Trask.

**15 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees y buddiant personol canlynol mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda - Adroddiad Blynyddol 2021 i 2022 Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd (VCC) 'Rwy'n cynrychioli'r Adain Weithredol fel Aelod o'r Panel.'

**16 Cofnodion**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ar 24 Tachwedd 2022, yn rhai cywir.

**17 Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru**

Rhoddodd Tros Gynnal Plant ddiweddariad cynnydd i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer chwarter 2, sy'n cynnwys Gorffennaf 2022-Medi 2022.

Clywodd yr Aelodau fod 46 o bobl ifainc wedi manteisio ar Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion yn ystod y chwarter, a chyfeiriwyd 21 o bobl ifainc eraill ar gyfer y Cynnig Gweithredol ledled RhCT. Rhoddodd y swyddog wybod bod 19 o bobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal ac 1 person sydd wedi gadael gofal wedi manteisio ar Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion, gan gyflwyno 21 o faterion; a chafodd 5 person ifanc â phrofiad o dderbyn gofal eu cyfeirio ar gyfer y Cynnig Gweithredol.

Cafodd Aelodau wybod bod 22 o bobl ifainc â phrofiad o dderbyn gofal yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig Gweithredol, cafodd 4 Cynnig Gweithredol eu darparu gan eiriolwyr ac aeth 4 o'r bobl ifainc ymlaen i dderbyn y Cynnig Gweithredol cyn derbyn Eiriolaeth yn seiliedig ar Faterion. Mae hyn yn golygu bod 23% o'r bobl ifainc cymwys wedi'u cyfeirio ar gyfer y Cynnig Gweithredol.

Yn ystod y cyfnod yma, roedd 6 o bobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal wedi gwrthod y cynnig o gyfarfod Cynnig Gweithredol. Esboniodd y Swyddog mai'r prif reswm dros wrthod y Cynnig Gweithredol oedd nad oedd y person ifanc yn teimlo fel bod angen y gwasanaeth arnyn nhw oherwydd bod modd iddyn nhw siarad â'i weithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol arall. Ychwanegwyd bod un person arall wedi gwrthod y Cynnig Gweithredol heb nodi rheswm, ond cafodd ei gyfeirio/chyfeirio at y gwasanaeth eirioli nes ymlaen.

Cafodd Aelodau wybod mai cyswllt ar ôl derbyn lleoliad ac atgyfeiriad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd y ddwy broblem oedd wedi codi mwyaf aml o ran cymorth eiriolaeth yn chwarter dau. Y llwybr atgyfeirio mwyaf poblogaidd ar gyfer pobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal a phobl ifainc sydd wedi gadael gofal yw'r llwybr 'hunanatgyfeirio'.

Aeth y Swyddog ymlaen i rannu ystadegau ag Aelodau ynglŷn â phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal ac sy'n manteisio ar y Gwasanaeth Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion a'r rheiny a gafodd eu hatgyfeirio ar gyfer y Cynnig Gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am oedran, rhyw, ethnigrwydd a lleoliad.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i Dros Gynnal Plant Cymru am yr adroddiad cynhwysfawr a chyfeiriodd at astudiaeth achos sy'n amlygu pwysigrwydd a llwyddiant y gwasanaeth eiriolaeth. Holodd y Cadeirydd a oedd pob person ifanc yn effro i'r gwasanaeth ac esboniwyd bod yr Awdurdod Lleol wedi gweithio'n galed i hysbysebu a hyrwyddo llwybrau i'r gwasanaeth gwerthfawr ymhlith ymarferwyr.

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad **PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

**18 Cynnig Llety'r Awdurdod Lleol a Gwasanaethau Cymorth Tai sy'n cael eu cynnig i Bobl Ifainc sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal**

Rhoddodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cymunedau Diogel a Thai Cymunedol ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas â materion tai a'r cymorth a gafodd ei ddarparu i bobl ifainc sy'n gadael gofal yn

ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Hydref 2022.

Rhoddodd y Swyddog wybod am yr opsiynau sydd ar gael i bobl ifainc sy'n gadael gofal o ran tai a chymorth:

- Ceisio Cartref - Tai Cymdeithasol (Dyraniad) - Yn ystod y cyfnod yma, roedd 14 o bobl ifainc oedd yn gadael gofal wedi gwneud cais i gynllun Ceisio Cartref. Cafodd y rhain eu hasesu i nodi eu bod nhw'n barod i fyw'n annibynnol a'u cofrestru ar gyfer tai a'u gosod ym Mand A. Cafodd 8 lleoliad tai cymdeithasol eu rhoi i 8 person yn gadael gofal yn ystod y cyfnod yma, ac mae 2 berson ifanc sy'n gadael gofal yn disgwyl tenantiaeth yn rhan o brosiect newydd yn Ffynnon Taf.
- Llety Rhent Preifat - Cynllun peilot sy'n ceisio gwella mynediad a chymorth i landlordiaid preifat er mwyn cynnig llety hir dymor, o safon ac sy'n fforddiadwy;
- Gwasanaeth Cymorth sy'n gysylltiedig â Thai - mae RhCT ar hyn o bryd yn comisiynu darpariaeth eang a gwasanaethau cymorth holistig ar gyfer pobl sy'n gadael gofal a phobl ifainc rhwng 16 a 25. Mae hyn yn cynnwys 28 uned Llety â Chymorth ac 11 uned llety mewn argyfwng ar gyfer pobl ifainc rhwng 16 a 25. Yn ystod y cyfnod yma, roedd 45 o bobl ifainc wedi defnyddio'r 28 uned Llety â Chymorth. Roedd 9 o'r 45 yma wedi'u nodi fel pobl sy'n gadael gofal. Hyd yn hyn, mae swyddogion wedi helpu 32 o bobl ifainc i fanteisio ar wasanaethau'r unedau llety mewn argyfwng;
- Cymorth fel y bo angen - Mae'r gwasanaeth yma'n helpu pobl ifainc sydd eisoes yn eu llety eu hunain ac yn cefnogi nifer o unigolion, gan gynnwys pobl ifainc, i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol i'w helpu i gadw eu tenantiaethau. Yn ystod y 7 mis diwethaf, cafwyd 12 atgyfeiriad gan bobl sy'n gadael gofal ar gyfer cymorth sy'n ymwneud â thenantiaeth a chafodd y rhain eu derbyn i'r cynllun;
- Prosiect Tai yn Gyntaf - Partneriaeth rhwng CBSRhCT a Llamau sy'n darparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu bobl ifainc sydd ag anghenion cymorth uwch a fydd yn ei chael hi'n anodd byw mewn llety â chymorth neu llety anghenion cyffredinol heb unrhyw gymorth. Roedd y prosiect yn cefnogi 10 person ifanc gyda 4 person ifanc yn rhan o denantiaeth 6 mis neu hirach ar ddiwedd mis Hydref.
- Llety â Chymorth - Rhoi cartref diogel i bobl ifainc sy'n gadael gofal a chynnig cyngor ymarferol a'u helpu i reoli'u ffordd o fyw a dod yn fwy annibynnol. Ar adeg y cyfarfod, roedd 9 person sy'n gadael gofal eisoes wedi cael lleoliad mewn Llety â Chymorth yn Rhondda Cynon Taf; a
- Get Ready and Move Out (GRAMO) - Prosiect sy'n cynnig amgylchedd dysgu ymyrraeth gynnar cyn-denantiaeth ar gyfer pob unigolyn er mwyn datblygu a gweld y sgiliau sydd eu hangen i reoli tenantiaeth. Yn ystod y cyfnod yma, roedd 9 person oedd yn gadael gofal wedi'u cyfeirio at y Cynllun 'Get Ready and Move Out' ac wedi cwblhau'r cwrs.

Rhoddodd y Swyddog wybod bod cyllid Llywodraeth Cymru a gafodd ei ddyrannu er mwyn cynyddu faint o lety dros dro a pharhaol sydd ar gael wedi helpu. Fodd bynnag, dim ond hyn a hyn o lety addas a fforddiadwy sydd ar gael yn y sector rhent preifat a chymdeithasol, er gwaetha'r cymorth ariannol. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar allu pobl ifainc i adael gofal mewn modd sydd wedi'i gynllunio ac i fyw'n annibynnol. Rhoddodd y Swyddog wybod bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i fynd i'r afael ag anghenion tai a chymorth y bobl ifainc sy'n gadael gofal ond nododd fod angen gwneud gwaith pellach er mwyn archwilio opsiynau cymorth a llety hir dymor.

Roedd un Aelod wedi cydnabod ei bod hi'n anodd dod o hyd i llety ar gyfer pobl ifainc yn rhan o Brosiect Tai yn Gyntaf, a holodd p'un a yw'r garfan yn ystyried ardaloedd gwahanol wrth roi lleoliad i bobl ifainc. Rhoddodd y Swyddog wybod bod gan bobl ifainc ddewis o ran ardal os ydyn nhw'n dilyn opsiwn Tai Cymdeithasol Ceisio Cartref, ac mae modd iddyn nhw wneud cais am dai pan fyddan nhw ar gael. O ran y prosiect Tai yn Gyntaf, mae swyddogion yn ceisio rhoi unigolion yn yr ardaloedd maen nhw wedi'u dewis ar sail rhwydweithiau cymorth ac ardaloedd maen nhw wedi'u nodi. Os nad yw'r dewis eisoes ar gael, weithiau maen nhw'n cael eu lleoli mewn ardaloedd eraill.

Holodd y Cadeirydd a oedd unrhyw gyfle i gysylltu â'r nifer o eiddo gwag sydd yma yn y Fwrdeistref Sirol. Rhoddodd y Swyddog wybod am fenter Llywodraeth Cymru o'r enw Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, sy'n cefnogi ystod eang o brosiectau gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i greu tai ychwanegol ledled Cymru.

Gofynnodd un Aelod gwestiynau ynglŷn â'r Sector Rhentu Preifat a ph'un a yw'r sefyllfa ariannol gyfredol yn cael effaith ar y gwaith sydd wedi'i gynnal gan y gwasanaeth. Roedd y Swyddog wedi cydnabod anawsterau rhwng y Sector Rhentu Preifat, ac yn benodol y bwlch rhwng y lwfans tai lleol a'r diffyg rhent, sy'n rhy uchel ar gyfer nifer o bobl ifainc. Esboniwyd bod y Cyngor wedi sefydlu Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol, sy'n eu galluogi nhw i reoli eiddo ar ran y landlord. Esboniodd y swyddog fod y farchnad yn heriol, er bod yr Asiantaeth yn llwyddo ac wedi rhagori ar dargedau Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad, **PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi'r wybodaeth.

**19 Adroddiad Blynyddol Meisgyn ac Adroddiad Blynyddol Carfan Teuluoedd Therapiwtig 2021 i 2022**

Rhannodd y Rheolwr Gwasanaeth ddiweddariad mewn perthynas â gwaith Carfanau Meisgyn, Carfan Integredig Cymorth i Deuluoedd, Carfan Teuluoedd Therapiwtig, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2021-2022.

Rhoddodd y swyddog rhywfaint o gyd-destun i feysydd gwasanaeth Meisgyn a'r egwyddorion, gwerthoedd, a'r diben, sef atal achosion o wahanu rhieni a'u plant neu chwalu'r berthynas â'r lleoliad. Cafodd Aelodau wybod bod hyn wedi cael ei wneud trwy weithredu ymyraethau ar sail tystiolaeth sydd â therfyn amser, ac sydd wedi'u cynhyrchu gan y teulu a'r gweithiwr achos sy'n gwneud yr atgyfeiriad.

Rhoddodd yr Aelod rywfaint o adborth a gyflwynwyd gan y defnyddwyr

gwasanaeth, gan esbonio bod yr holiaduron wedi'u hanfon at weithwyr sy'n gwneud atgyfeiriadau, pobl ifainc, rhieni a rhieni maeth. Roedd y gyfradd ddychwelyd o oddeutu 25% yn rhoi syniad i ni o fanteision y gwasanaeth a meysydd i'w gwella.

Rhoddodd y swyddog drosolwg o'r data cyflawniad, gan gymharu atgyfeiriadau dros y blynyddoedd ac effaith Covid-19.

Roedd y Cadeirydd wedi cyfeirio at ddyfyniadau'r defnyddwyr gwasanaeth ar dudalen 9, gan ganmol y staff am eu holl waith caled. Gan gyfeirio at gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a thrais yn y cartref, holodd y Cadeirydd p'un a oedd cynnydd wedi bod yn nifer yr atgyfeiriadau hynny ers y pandemig. Rhoddodd y swyddog wybod nad oedd unrhyw gynnydd wedi bod, gan eu bod nhw wedi bod yn eithaf cyffredin yn y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau. Rhoddodd wybod i'r Bwrdd mai un o'r meysydd mwyaf cyffredin yn RhCT oedd camddefnyddio alcohol ymhlith rhieni.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

**20** **Adroddiad Blynyddol 2021 i 2022 Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd (VCC)**

Rhannodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau i Blant fanylion Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Cafodd yr Aelodau wybod bod Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd wedi cymeradwyo nifer sylweddol o fabwysiadwyr yn ystod y cyfnod yma, ac o ganlyniad i hynny roedd modd i nifer o blant gael lleoliad yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae angen recriwtio rhagor o fabwysiadwyr ar gyfer plant sydd ag anghenion mwy cymhleth ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd. Roedd cymorth mabwysiadu yn cynrychioli nifer fawr o'r heriau y mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd yn eu hwynebu, ac mae'r angen i leihau'r rhestr aros ar gyfer gwasanaethau a sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i dargedu i'r rhai sydd ei angen fwyaf yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Nododd un Aelod fod mewnbwn gan weithiwr cymdeithasol yn werthfawr iawn iddyn nhw fel Aelod o'r Panel gan eu hannog nhw i fynychu'r cyfarfodydd, ond roedd yr Aelod yn cydnabod eu llwyth gwaith.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad manwl a
**PHENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:**

1. Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.

**21** **Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**22** **Maethu Cymru – Siarter/Cyflogwr sy'n Ystyriol o Faethu**

Rhoddodd Reolwr Datblygu Rhanbarthol Maethu Cymru ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ynglŷn â'r broses recriwtio a chadw ar gyfer rhieni maeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y drws ffrynt rhanbarthol a'r newidiadau i gyflenwi gweithredol o ran recriwtio rhieni maeth.

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad eithriedig, **PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:**

1. Nodi, er gwybodaeth, y newidiadau i'r broses recriwtio rhieni maeth a'r wybodaeth ynghylch cyflawniad.

**23** **Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol**

Rhoddodd y Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaethau grynodeb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Medi 2022.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad eithriedig, **PENDERFYNODD Aelodau:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; a
2. Dylai hyfforddiant ychwanegol gael ei ddarparu i'r holl Aelodau Etholedig o ran y risg sy'n gysylltiedig â chyflwyno cwynion i'r System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn rhan o'i rôl fel Cynghorwyr ac ar ran aelodau o'r teulu.

**24** **Adroddiadau Rheoliad 73**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau Rheoliad 32 sydd wedi eu cynnal yn y cartrefi i blant canlynol – Beddau, Bryndâr, Nant-gwyn a Tŷ Brynna, a hynny rhwng Ebrill a Hydref 2022.

Amlinellodd y swyddog grynodeb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.32 am**

**Y Cynghorydd G Caple**
**Cadeirydd.**